



Paul Davies AS  
Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

8 Rhagfyr 2021

Annwyl Paul

Diolch am eich llythyr dyddiedig 30 Tachwedd. Fe wyddoch fy mod wedi cefnogi cyfarwyddyd y Senedd ym mis Mehefin am bwyllgor perthnasol i 'adolygu ar frys' Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021. Gallaf eich sicrhau fy mod yn bendant yn bwriadu mynychu'r Pwyllgor ETRA a darparu tystiolaeth. Nid yw fy safbwynt yn newid wrth awgrymu i sesiwn y Pwyllgor i dderbyn fy nhystiolaeth gael ei ohirio nes bod dyfarniad yr Adolygiad Barnwrol wedi'i gyhoeddi ac nad yw'r cyfyngiadau ar fy nhystiolaeth yn berthnasol mwyach.

Fel yr ydych wedi cydnabod yn eich llythyr, mae'r adolygiad barnwrol parhaus yn ychwanegu lefel o gymhlethdod. Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r llys yn sylweddol ac yn cwmpasu rhannau helaeth o'r broses datblygu polisi a chynnwys y Rheoliadau. Nid yw'r barnwr wedi gwneud ei benderfyniad eto ac ymddengys nad oes llawer o gyfle i mi ddarparu'r ymatebion ystyrlon llawn yr hoffwn eu rhoi neu graffu ar y Pwyllgor i'r lefel y mae'r pwnc yn ei haeddu.

Fel Gweinidog, fi yw'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau cyfrifol mewn perthynas â'r Rheoliadau a byddai unrhyw dystiolaeth a ddarperir i'r Pwyllgor, sy'n destun craffu cyhoeddus, yn cael ei thrin yn wahanol iawn gan y llysoedd o'i gymharu â chyfranogwyr eraill. Mae'n bwysig nodi bod cynrychiolwyr a fynychodd wrandawriad y Pwyllgor hyd yma yn wahanol i'r rhai sy'n darparu datganiadau tyst i'r llys. Hefyd, mae'r dystiolaeth a ddarparwyd gan CNC, yr undebau ffermio a'r cyrff amgylcheddol fel rhan o adolygiad y Pwyllgor yn annhebygol o gael effaith debyg ar benderfyniad y llys.

Er bod eich llythyr yn cyfeirio at y posibilrwydd o oedi hir oherwydd y posibilrwydd o apelio, byddai'r cyfyngiadau'n debygol o gael eu cyfyngu i sail yr apêl ac ni fyddai'n cyfateb i ail wrandawriad. Byddai apêl fel arfer ar bwynt cyfreithiol, a rhagwelir, hyd yn oed pe byddai apêl yn cael ei wneud, ac yn amodol ar y sail, dylai fod digon o gyfle i ddarparu atebion manwl i ystod gymharol eang o gwestiynau yn dilyn unrhyw ddyfarniad cychwynnol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf yn eich sicrhau, unwaith y bydd dyfarniad wedi'i wneud, a'r canlyniadau yn hysbys, y byddaf yn edrych ymlaen at ymgysylltu'n llawn â'r Pwyllgor ac rwy'n parhau i fod yr un mor ymrwymedig i graffu'n agored ar y Rheoliadau hyn gan y Pwyllgor, fel y gwneuthum wrth gefnogi'r cyfarwyddyd gwreiddiol ym mis Mehefin. Bydd fy swyddogion yn parhau i gysylltu â chlercod y Pwyllgor ynghylch dyddiadau addas.

Cofion

A handwritten signature in black ink that reads "Lesley Griffiths". The signature is written in a cursive style with a large, sweeping 'L' and 'G'.

**Lesley Griffiths AS**  
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**  
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**